

# Er budd y plant: Galwadau Cwlwm am Ddyfodol Tecach



Cwlwm A5 Maniffesto CY.indd 1 02/09/2025 09:09





Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru

NDNA Cymru National Day Nurseries Association

coram pacey cymru

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

Cwlwm A5 Maniffesto CY.indd 2 02/09/2025 09:09





# Rhagair gan y bum Prif Swyddog Gweithredol CWLWM:

Mae gwasanaethau blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn hanfodol er mwyn i blant Cymru gael dechrau cadarnhaol, plentyndod chwareus ac i gymunedau ffynnu. Maent yn darparu'r gwasanaethau allweddol ar gyfer datblygiad plant ac yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi teuluoedd ledled Cymru. Mae'r busnesau, yr elusennau a'r gweithlu'n canolbwyntio ar ddarparu profiadau gofal plant o ansawdd uchel i blant o'u geni - 12 oed.

Mae'r blynyddoedd cynnar yn gyfnod hollbwysig. Yn ystod y cyfnod hwn, mae plant ifanc yn mynd drwy newidiadau sylweddol yn eu datblygiad gwybyddol a chorfforol sy'n gosod y tempo ar gyfer sut rydym yn byw ein bywydau. Mae'r sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae wedi'i gynllunio i gefnogi'r datblygiad hwn, gan ddarparu cefnogaeth i bob plentyn, beth bynnag fo'u cefndir.

Mae maniffesto Cwlwm yn cydnabod pwysigrwydd hyn yn nhermau polisi, gan greu gweledigaeth o ddarpariaeth gofal plant cynaliadwy hirdymor a fydd yn cefnogi'r genhedlaeth nesaf o blant ifanc yng Nghymru am ddegawdau i ddod.



# 1: Cynyddu cyflog ac adnoddau ariannol wedi'i dargedu ar gyfer y sector i helpu gyda recriwtio a chadw staff

## *Beth yw'r heriau presennol?*

- Mae tystiolaeth o'r sector yn dweud wrthym fod recriwtio a chadw staff yn heriol. Yn wir, mae'r realiti hwn wedi cael ei brofi gan y sector ers bron i ddau ddegawd.
- Mae recriwtio a chadw staff yn heriol oherwydd bod y sector wedi'i danariannu'n sylweddol, sy'n golygu nad yw staff ar bob lefel o'r sector yn derbyn cyflog digonol am y gwaith hollbwysig y maent yn ei wneud.
- Mae'r diffyg cyflog hwn yn golygu nad yw'n ymarferol i lawer o ymarferwyr dalu biliau pob dydd, gyda chyfleoedd i ddatblygu gyrfa yn gyfyngedig ac mae gyrfaoedd eraill y tu allan i'r sector gofal yn aml yn cael eu gweld yn fwy proffidiol.
- Mae'r lleihad yn nifer o warchodwyr plant yn parhau i fod yn bryder ac yn effeithio ar ddewis rhieni.

## *Beth mae'r ystadegau yn ei ddweud wrthym?*

- Mae dros hanner y sector (**57%**) yn dweud eu bod wedi cael anhawster wrth geisio recriwtio staff ar gyfer eu lleoliad yn ystod y 12 mis diwethaf[1].
- Mae dros hanner y sector (**54%**) yn dweud mai'r prif reswm dros yr anhawster yn recriwtio yw oherwydd bod y cyflog yn rhy isel i ddenu staff[2].
- Yn y sector gofal plant y tu allan i'r ysgol, mae prinder staff yn parhau i danseilio cynaliadwyedd lleoliadau. Yn ystod y 12 mis diwethaf, dim ond **28%** o staff a adawodd eu swyddi sydd wedi aros o fewn y sector.
- Mae nifer y gwarchodwyr plant yng Nghymru yn parhau i leihau dros **5%** y flwyddyn.

## *Sut bydd yr alwad hon yn helpu i ddatrys y problemau?*

- Bydd cynyddu cyflog yn helpu i wneud gyrfa yn y sector yn fwy deniadol ac yn ad-dalu staff am yr amser a dreulir yn cynllunio, ymateb i wahanol agendâu / strategaethau a darparu ar gyfer plant a'u teuluoedd.
- Bydd ymrwymiad parhaus i ariannu cymwysterau a chyfleoedd hyfforddi a mentrau eraill i annog recriwtio o'r tu allan i'r sector, yn helpu'r sector i ddod yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir.
- Ar hyn o bryd, mae dull anghyson ar draws y 22 awdurdod lleol o ran cael mynediad at gyllid ac adnoddau cefnogol ar gyfer y rhai sy'n dymuno bod yn warchodwr plant yng Nghymru. Byddai rhaglen genedlaethol o gymorth yn sicrhau dull mwy cyson, hygyrch a haws i'w hyrwyddo.
- Bydd mwy o gymorth yn gwella mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan alluogi'r sector cyfan i gyflawni targedau'r Gymraeg.

1 https://cwlwm.org.uk/cy/our-work/reports
2 https://cwlwm.org.uk/cy/our-work/reports

# 2: Cyllido cyson a hirdymor i fynd i'r afael â darnio a gwella cynaliadwyedd y sector

## *Beth yw'r heriau presennol?*

- Mae angen sicrwydd ar unrhyw sector i gynllunio. Mae'n ymddangos bod cyllid presennol y sector wedi'i gynllunio i lanw'r bylchau yn unig, sy'n golygu bod llawer o leoliadau yn gweithio ar sail blwyddyn yn unig.
- Yn y pen draw, dylid cyflwyno strategaeth ariannu hirdymor i ymgorffori gofal plant o dan ddwy oed a chyfleon chwarae i blant hyd at 12 oed, gan sicrhau bod pwysigrwydd 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn yn cael ei gydnabod a'i adlewyrchu trwy werth ychwanegol yn nhermau polisi.
- Croesawyd y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, ond rydym yn argymell ei fod **yn cael ei ymestyn** i adeiladau ysgolion/cymunedol a ddefnyddir ***yn rhannol*** gan ofal plant. Nid yw darparwyr gofal plant hŷn yn gymwys am unrhyw ryddhad ardrethi pan nad ydynt yn unig feddianwyr yr eiddo, ac mae landlordiaid yn codi cyfran o'u hardrethi fel rhan o'r rhent cyffredinol.

## *Beth mae'r ystadegau yn ei ddweud wrthym?*

- Mae cynnydd mewn costau byw, cynnydd mewn morgais/rhent a phrinder staffio yn effeithio ar lawer o leoliadau. Yn gynyddol mae'r rhain yn arwain lleoliadau i ystyried codi ffioedd (**50%**), cau elfennau o'r gwasanaeth (**10%**), lleihau amseroedd agor (**17%**), a dadgofrestru (**10%**).
- Dim ond **31%** o leoliadau sy'n dweud bod ganddynt 6 mis neu fwy o gronfeydd wrth gefn / cynilion ar waith[3].

## *Sut bydd yr alwad hon yn helpu i ddatrys y problemau?*

- Bydd cyllid hirdymor yn galluogi lleoliadau i gefnogi eu hunain yn well yn ariannol, gan greu sylfaen ariannol gryfach, a helpu i gynyddu cyflogau er mwyn recriwtio a chadw staff.
- Mae cynaliadwyedd lleoliadau yn hollbwysig i blant a'u teuluoedd, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, lle mae mynediad at amrywiaeth o leoliadau'n gyfyngedig. Mae lleoliadau yn bodoli yng nghanolbwynt cymunedau, gan greu amgylchedd lle mae pob plentyn, beth bynnag fo'u cefndir, yn cael cefnogaeth gyfartal i'w helpu i ddatblygu i'w lawn botensial. Mae goroesiad hirdymor lleoliadau, felly, yn allweddol i sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb.

3 https://cwlwm.org.uk/cy/our-work/reports



Cwlwm A5 Manifesto CY.indd 5 02/09/2025 09:09



# 3: Codi gwerth y sector

## *Beth yw'r heriau presennol?*

- Mae staff wrth eu bodd yn gweithio gyda phlant ond oherwydd tâl isel a'r teimlad bod **"pethau'n cael eu gwneud iddyn nhw"**, nid yw staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y dirwedd bolisi presennol ynghylch eu proffesiwn.
- Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn fenter bolisi gwych, ond ar hyn o bryd, mae diffyg dealltwriaeth ymhlith llunwyr polisi sydd ddim yn gysylltiedig â›r blynyddoedd cynnar, yn ogystal â›r cyhoedd ehangach, am sut mae wedi'i gynllunio i effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau datblygiadol plant ifanc.

## *Beth mae'r ystadegau yn ei ddweud wrthym?*

- Mae llawer o ymarferwyr ar Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu gyflog isel, gyda mwy a mwy cyfrifoldebau wedi'i yrru gan newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddio.
- Mae llawer o'r sector yn teimlo nad yw'n cael ei werthfawrogi'n ddigonol gan Bolisi'r Llywodraeth, yn ogystal â chymdeithas gyfan[4].

## *Sut bydd yr alwad hon yn helpu i ddatrys y problemau?*

- Bydd codi proffil a gwerth y sector yn helpu'r cyhoedd i ddeall pwysigrwydd gofal plant a chynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyfleoedd datblygiadol plant o ansawdd uchel.
- Bydd ychwanegu gwerth at y sector yn helpu i gefnogi'r gwaith o fynd i'r afael â heriau sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff.

4 https://www.earlyyears.wales/cy/newyddion/iechyd-meddwl-lles-yn-y-blynyddoedd-cynnar

cwlwm



# 4: Cynorthwyo'r sector i ddarparu mwy o gymorth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

## *Beth yw'r heriau presennol?*

- Mae lleoliadau yn dweud wrthym fod cymorth yn dameidiog, yn anghyson a bod mynediad at gymorth yn lafurus ac yn cymryd llawer o amser.
- Mae staff hefyd yn dweud wrthym fod y system o ran adrodd ar gyfer ADY yn dameidiog, gyda diffyg cydlynu a gweithio gydag ymwelwyr iechyd sy'n arwain at sefyllfaoedd lle nad yw llawer o blant ag ADY yn derbyn cymorth digonol tan eu bod yn cyrraedd oed Ysgol.

## *Beth mae'r ystadegau yn ei ddweud wrthym?*

- Mae clybiau chwarae yn cefnogi chwarae a chymdeithasu ar gyfer nifer cynyddol o blant ag amrywiaeth o anghenion lles a chymorth. Roedd gan ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol i Glybiau 2024 dan arweiniad Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs **1,470** o blant (cynnydd o **1,249** yn 2023) gydag anghenion ychwanegol yn eu lleoliadau (gellid amcangyfrif bod hyn yn **4,083** o blant). Mae'r patrwm hwn i'w weld ar draws y sector gofal plant.

## *Sut bydd yr alwad hon yn helpu i ddatrys y problemau?*

- Mae angen cymorth ar staff i allu darparu ar gyfer anghenion unigol plant a'u teuluoedd - felly mae'n hollbwysig eu bod yn cael y cyllid a'r hyfforddiant priodol i allu darparu'r rôl hon yn effeithiol.
- Creu partneriaeth sydd â chysylltiad gwell rhwng timau Blynyddoedd Cynnar ac Iechyd a Lles awdurdodau lleol er mwyn cynyddu lefelau ymddiriedaeth a gweithio ar y cyd, sy'n golygu nad yw plant sydd angen ymyrraeth a chefnogaeth yn eu blynyddoedd cynnar yn colli cyfleoedd hanfodol.

cwlwm

# 5: Cyfiawnder cymdeithasol a llesiant

## *Beth yw'r heriau presennol?*

- Yn ôl adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Sefydliad Bevan mewn partneriaeth â Barnardo's Cymru sy'n ymchwilio cyflwr materion presennol tlodi plant yng Nghymru: *"mae mwy na hanner yr holl blant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn byw mewn teulu lle mae o leiaf un plentyn 0-4 oed"*. Mae hyn yn golygu bod y plant ieuengaf yn anffodus, yn fwy tebygol o brofi tlodi yn eu cartrefi.
- Mewn teuluoedd lle mae plant oedran ysgol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, nid yw brodyr a chwiorydd iau lleoliadau nas cynhelir yn elwa o'r un cymorth.
- Mae nifer fawr o blant yn wynebu problemau iechyd meddwl a llesiant, heb gymorth digonol gan bolisïau ymyraethol.

## *Beth mae'r ystadegau yn ei ddweud wrthym?*

- Mae lleoliadau yn cefnogi plant ag amrywiaeth cynyddol o anghenion cymorth/llesiant: y mwyaf cyffredin yw anhawster rheoli emosiynau (**68%** o glybiau), heriau lleferydd ac iaith (**63%**), anhawster gwneud ffrindiau newydd/sgiliau cymdeithasol eraill (**48%**), a lefelau cynyddol o niwroamrywiaeth **48%**).

## *Sut bydd yr alwad hon yn helpu i ddatrys y problemau?*

- Bydd deddfwriaeth a weithredir i fynd i'r afael â chyfiawnder cymdeithasol a lles yn y blynyddoedd cynnar yn hanfodol i sicrhau nad yw plant sy'n cael eu geni i anfantais yn profi effaith andwyol ar eu datblygiad.







# 6: Gwneud Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn ddeddfwriaeth statudol

## *Beth yw'r heriau presennol?*

- Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn weledigaeth ar gyfer gofal, chwarae a dysgu ar gyfer plant 0–5 oed. Mae'n canolbwyntio ar flaenoriaethu datblygiad plant, darparu cyfleoedd cyfartal i bawb a phrofiadau o ansawdd uchel trwy chwarae, dysgu a gofal. Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn hynod bwysig oherwydd ei fod yn cydnabod y ffaith bod gan fabanod a phlant ifanc yr hawl gyfreithiol sylfaenol i dyfu'n hapus, yn iach ac mewn amgylchedd diogel. Ar hyn o bryd, mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn bodoli fel is-ddeddfwriaeth yn unig, sy'n golygu ei fod yn ganllaw yn unig.
- Mae staff gofal plant ym mhob lleoliad yn allweddol i ddiogelu hawliau plant i chwarae, cefnogi datblygiad seicolegol, cymdeithasol a gwybyddol plant ac ar iechyd meddwl a lles.

## *Beth mae'r ystadegau yn ei ddweud wrthym?*

- Canfu ymchwil ddiweddar gan Achub y Plant fod cyfleoedd plant i chwarae y tu allan i'r cartref yn eu bywydau bob dydd wedi lleihau dros y cenedlaethau[2]. Dim ond **27%** o blant ddywedodd eu bod yn chwarae'n rheolaidd y tu allan i'w cartrefi, o'i gymharu â **71%** o'r genhedlaeth ar ôl yr ail ryfel byd[5].
- Ymhellach, dangosodd ymchwil gan Chwarae Cymru yn 2022 mai dim ond **40%** o blant dan 11 oed yng Nghymru sy'n mynd allan i chwarae neu i dreulio amser gyda'u ffrindiau "y rhan fwyaf o ddyddiau" yr wythnos[6].

## *Sut bydd yr alwad hon yn helpu i ddatrys y problemau sy'n wynebu?*

- Trwy wneud Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn ddeddfwriaeth statudol, bydd pob plentyn yng Nghymru yn elwa ar ei fwriad: mynediad at gyfleoedd chwarae rheolaidd ac o ansawdd uchel.
- Bydd darparu mynediad i fwy o blant ifanc i'r cyfleoedd chwarae hyn yn allweddol wrth helpu i wyrdroi'r duedd bresennol o leihau cyfleoedd chwarae i blant, ac yn helpu i lunio dealltwriaeth gymdeithasol am bwysigrwydd chwarae â chymorth rheolaidd ym mywydau plant.

5 https://www.savethechildren.org.uk/news/media-centre/press-releases/2022/children-today-far-less-likely-to-play-outside-than-their-grandparents

6 https://chwarae.cymru/wp-content/uploads/sites/3/2023/09/Yr-hyn-mae-plant-yn-ei-ddweud-am-chwarae-yng-Nghymru-2022.pdf



# 7: Ehangu gallu Cwlwm i weithredu ei waith gwrth-hiliol

- Mae partneriaid Cwlwm wedi gweithio ar draws y sector ochr yn ochr â phartneriaid fel DARPL i ddysgu, cyd-ddatblygu ac i weithredu canllawiau gwrth-hiliol a Dysgu Proffesiynol ar gyfer darparwyr y blynyddoedd cynnar ledled y genedl.
- Mae dysgu arweinyddiaeth wrth-hiliol yn hynod bwysig i sicrhau bod pob plentyn, beth bynnag fo'u cefndir, yn cael mynediad cyfartal at y manteision niferus y mae ymarfer blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn eu cynnig. Mae edrych ar y blynyddoedd cynnar, gofal plant ac ymarfer chwarae drwy lens wrth-hiliol yn allweddol i helpu i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o sicrhau y bydd Cymru'n genedl wrth-hiliol erbyn 2030.
- Mae cynyddu'r cyllid Cwlwm i barhau â'r gwaith hwn ac i weithio tuag at amrywio ein gweithlu'n hynod bwysig. Hoffem weld cyllid tymor hir wedi'i warantu i sicrhau bod niferoedd cynyddol o weithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar yn cael eu darparu â hyfforddiant priodol a chymorth o ansawdd uchel ledled Cymru a ddarperir gan DARPL a Cwlwm.



cwlwm